**Bwrdd Partneriaeth Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin**
**26.4.2024**

**Ymddiheuriadau:**
Naomi Jones (Awdurod Parc Cenedlaethol Eryri), Kate Roberts (Cadw), Christopher Catling (RCAHMW), Andrew Edwards (Prifysgol Bangor), Sian Rees (ICOMOS-UK), Dan Amor (Cyngor Gwynedd)

**Presennol**:

Yr Arglwydd Dafydd Wigley, Cyng. Nia Jeffreys, Dafydd Gwyn (Govannon), Roland Evans (Cyngor Gwynedd), Hannah Joyce (Cyngor Gwynedd), Gwyneth Hughes (Cyngor Gwynedd - Cofnodi), Michael Bewick (JW Greaves), Ceri Williams (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), Elen Roberts (Amgueddfa Genedlaethol), Helen Goddard (Amgueddfa Genedlaethol); Lucy Thomas (Cyngor Gwynedd), Gareth Jones (Cyngor Gwynedd), Jonathan Cawley (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Ashley Batten (Cadw)

| | |
|---|---|
| Derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod. | |
| **Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi**<br>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel rhai cywir. | |
| **Adnabod Blaenoriaethau Partneriaid a'r Bwrdd Partneriaeth ar gyfer 2024-25**<br><br>• **Strwythur rheoli Safle Treftadaeth y Byd Newydd arfaethedig**<br><br>Atgoffwyd Aelodau'r Bwrdd bod y cylch gorchwyl yn cael ei adolygu'n flynyddol a bydd aelodaeth y Bartneriaeth yn cael ei adolygu hefyd.<br><br>Holodd Michael a oedd angen grwp llai e.e. Grwp Gweithredu i adrodd yn ol i'r Bwrdd Partnerieth. Os byddai Grwp Gweithredu yn cael ei sefydlu, byddai'r Bwrdd Partneriaeth yn cynnal llai o gyfarfodydd. (Bwrdd cyfarfod dwywaith y flwyddyn, Cyfarfodydd eraill yn cyfarfod o bosib hyd at chwe' Gwaith y flwyddyn)<br><br>Mae angen cysidro sut i symud pethau ymlaen mewn ffordd dynamic.<br><br>Mae angen cael cynrychiolaeth cymunedol ar y Bwrdd Partneriaeth.<br><br>Pwysig cadw statws y Bwrdd fel y corff arweiniol.<br><br>Diolchodd Cyng. Nia Jeffreys i Michael am ei holl waith yn ymchwilio i'r strwythur Newydd. Ategodd Nia bod statws a phwysigrwydd y Bwrdd Arweiniol yn bwysig iawn er mwyn rhoi cyfeiriad ond hefyd yn cytuno efo'r syniad o gael grwp llai fel bod y grwp yna yn gyrru pethau ymlaen a gweithredu ac yn yn adrodd yn ol i'r Bwrdd.<br><br>Cytunodd Ashley efo hyn hefyd. Nododd ein bod yn cyflawni gweithrediadau ond bod rhai gweithrediadau ddim yn cyfateb efo nod y cynllun rheolaeth. Cytunwyd fod angen | |

| | |
|---|---|
| ailedrych ar y Cynllun Rheoli er mwyn ei wneud yn haws i'w weithredu (adolygiad i'w gynnal yn 2025).<br><br>Trafodwyd y syniad o gynnal gweithdy fyddai'n mapio pethau allan, adnabod ambell fwlch. Neu cynnal Gweithdy/Grwp Tasg a Gorffen.<br><br>Roedd Jonathan yn cytuno efo hyn ac yn nodi bod hyn yn amserol iawn.<br><br>Amgueddfa Lechi yn hapus iawn i gael sgwrs pellach am aelodaeth.<br><br>Roedd Ceri, Ymddirheidolaeth Genedlaethol, yn cytuno efo hyn.<br><br>Dafydd Gwyn – croesawu gweithdy. Llawer o son wedi bod am Addysg ond angen meddwl am bwy. Cysylltiad rhyngwladol. Cryfhau yr enwebiad os byddem yn mynd allan i greu cysylltidau efo Amgueddfeydd ar draws y byd. Pwyslais ar ymchwil Prifysgolion.<br><br>Gareth - Cynllun rheoli angen bod yn ganolog o beth ydy'r strwythur newydd.<br><br>Sioned gwneud y gorau o beth sydd ar gael yn barod. Hyblygrwydd yn bwysig iawn. Tueddiad bod Parneriaid yn gwneud bob dim eu hunain.<br><br>Cytunwyd i gynnal gweithdy i edrych ar y strwythur partneriaeth a'r Aelodau mwyaf perthnasol i fod yn ran ohono. | **DA** |
| **Eitem 4 – blaenoriaethau yn ystod 2024-25:**<br><br>• Cadw – Gwaith ar brosiectau cadwraeth yn mynd ymlaen.<br>• Ymddiriedolaeth Genedlaethol - blaenoriaethu agor arddangosfa, datblygu cysylltiadau rhyngwladol yn canolbwyntio ar Jamaican a Gogledd Affrica a'r cysylltiadau gyda caethwasiaeth, ffocws ar gweledigaeth i Castell Penrhyn.<br>• Parc – rhesymoli eiddo o fewn perchnogaeth yr Awdurdod<br>• Amgueddfa Lechi – ailddatblygiadau safle Gilfach Ddu, recriwtio staff prosiect ar waith, cyfarfodydd ymgysylltu cymunedol yn cychwyn wythnos nesaf.<br>• Cyngor Gwynedd – Gwneud y gorau allan o'r Safle Treftadaeth y Byd, gweithredu cynlluniau Ffyniant Bro, Ffyniant Cyffredin, Loteri, parhau i gydweithio, cynllun economi ymweld, strwythur yn cael ei ddatblygu fel rhan o Bartneriaeth Twristiaeth Gwynedd ac Eryri 2035. Edrych ar y posibilrwydd o greu ar Strategaeth Ddiwylliant yng Ngwynedd. | |
| **5. Cynllun Cyfathrebu**<br><br>Roedd pawb wedi derbyn copi drafft o'r Cynllun Cyfathrebu cyn y cyfarfod.<br><br>Penderfynwyd symleiddio'r negeseuon allweddol, hollbwysig cadw elfen *ein stori* (tirwedd byw)<br><br>Awgrym i greu dogfen gryno rhwng partneriaid ar sut i gyfathrebu a siarad hefo'n gilydd.<br><br>Creu rhwydwaith swyddogion cyfathrebu | HJ<br><br>HJ<br><br>DA |
| **6. Diweddariad:**<br><br>• **Is grwp cadwraeth** | |

| | |
|---|---|
| Yn absenoldeb Kate, adroddodd Ashley nad oedd cyfarfod o'r Is Grwp wedi ei gynnal cyn y cyfarfod yma heddiw felly dim byd ffurfiol i'w adrodd o ran y Grwp.<br><br>Caniatad Cynllunio Heneb wedi ei gymeradwyo i Inclên A1 ym Mharc Padarn fel rhan o'r cynllun Llewyrch o'r Llechi.<br><br>Cynlluniau Llewyrch o'r Llechi yn symud ymlaen yn dda.<br><br>Cyfarfod safle i ddigwydd yn Dorothea yn fuan i edrych ar Ffermdy Penybryn.<br><br>• **Is grwp Buddion**<br><br>Aroddodd Michael bod y brecwast busnes a gynhaliwyd ym Methesda yn ddiweddar wedi'i drefnu'n dda a llawer o fusnesau bach wedi elwa o'r digwyddiad. Bydd un tebyg yn cael ei gynnal yn ardal Meirionnydd yn fuan gyda'r bwriad o gynnal nifer ohonynt ar draws y sir.<br><br>Michael a Lucy wedi cael cyfarfod buddiol efo Cwmni Fran Wen yn ddiweddar ynghlych prosiect drama cymunedol.<br><br>• **Diweddariad Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd (Hannah yn absenoldeb Dan)**<br><br>Cynhadledd WHUK a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Bangor wedi mynd yn dda iawn. Siaradwyr yn dda iawn a diolchwyd yn arbennig i Dafydd Gwyn.<br><br>Cynllun Rheoli – monitro pwyntiau yn y cynllun gweithredu ar gyfer adrodd ar y flwyddyn ariannol diwethaf. Fydd Dan yn cysylltu efo rhai partneriaid i gael mewnbwn ar gyfer y monitro.<br><br>Llechi Cymru wedi cael ein dewis yn ddiweddar i fod yn ran o ddau astudiaeth achos – esiampl dda o ymgysylltu cymunedol fel rhan o ddatblygu a rheoli STYB ac un arall gan Historic Scotland ar sut i sicrhau mewnbwn cymunedau i broses enwebiad STYB. | |
| **Ariannu**<br><br>• **Llewyrch o'r Llechi**<br>Mae rhaglen Llewyrch o'r Llechi Ffyniant Bro – gwerth £18 miliwn – yn cynnwys nifer o brosiectau mewn tri hwb: Dinorwig, Ogwen, a Ffestiniog.<br>Y dyddiad gorffen gwreiddiol ar gyfer y rhaglen oedd Mawrth 2025. Yn y chwarter Hydref – Rhagfyr 2023 adroddodd yr Amguedda Lechi y byddai angen estyniad arnynt i gwblhau eu prosiect ailddatblygu, a'r chwarter diwethaf mae rhai o'r prosiectau eraill wedi nodi y bydd angen hefyd estyniad.<br>• Mae hyn wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth y DU, gydag estyniad posibl.<br>• Mae risgiau wedi eu hadnabod o ran llithriad a chostau uwch. Mae'r risgiau'n cael eu lliniaru ac mae'r rhaglen yn gwneud cynnydd da.<br><br>Holodd Michael am y ddiffyg arwyddion yn cydnabod cyllidwyr ar gynllun Llwybr Blaenau Ffestiniog i Llechwedd. Tom i ddilyn i fyny.<br><br>Gofynnwyd cwestiwn dilynol ynghylch sut mae'r prosiect yn cael ei ddehongli. Dehongli'r safle fel rhan o raglen Ffyniant Bro, gyda thrafodaeth ar arwyddion yn digwydd rhwng partneriaid a rhanddeiliaid.<br><br>**Loteri (Lucy)**<br><br>• Cais i'r Loteri wedi ei gyflwyno erbyn 29/02/24 | TS |

| | |
|---|---|
| • Dyddiad wedi ei dderbyn gennym gan y Loteri ar gyfer ymweliad safle, sef 3 Mehefin. Pedr ap Llwyd fydd yn ymweld ar ran pwyllgor y Loteri.<br>• Cylch nesaf o'r Grwpiau Llechi Lleol yn cyfarfod dros y 3 wythnos nesaf. Cyfle i glywed mwy am newyddion am y STYB a'r brosiectau ac i weithio gydag Amgueddfa Cymru i gynnal sesiynau ymgysylltu cymunedol am eu cynlluniau i ddatblygu'r Amgueddfa Lechi<br>• Cwrs busnesau i staff sy'n gweithio gydag ymwelwyr a'r cyhoedd i helpu nhw i ddeall mwy am y STyB ac ymateb i ymholiadau yn cael ei gynnal ar 10 Mehefin yn Plas Tan y Bwlch. Cyfraniadau gan Dan, Dafydd Gwyn a staff ein gwasanaeth twristiaeth. | |
| **UFA**<br><br>Atgoffwyd pawb am y Digwyddiad Dathliad 150 ers Sefydlu Undeb y Chwarelwyr, 4ydd o Fai, 2024 yn yr Amgueddfa Lechi.<br><br>Atgoffwyd pawb am y Digwyddiad ar Reilffordd Talyllyn, Tywyn ar 9fed o Fehefin fel diolch i bawb am eu cyfraniadau i Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.<br>Cyfeiriwyd at dathliad y flwyddyn yma o Ddathlu 140 mlynedd o ragoriaeth academaidd ac effaith fyd-eang Bangor. Yn 2024, bydd Prifysgol Bangor yn nodi 140 mlynedd ers ei sefydlu, gan ddathlu cant a deugain o flynyddoedd o ragoriaeth academaidd, ymchwil arloesol a phrofiadau gwych i fyfyrwyr.<br><br>Cyfeiriodd Elen at ymweliad y Gweinidog Lesley Griffiths AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol i'r Amgueddfa Lechi yr wythnos nesaf.<br><br>Cofion cynnes Aelodau'r Bwrdd i Judith Alfrey ar ei ymddeoliad o Cadw.<br><br>Cydymdeimladau gan Aelodau'r Bwrdd i deulu a chyfeillion Nigel Spires oedd yn rhan o dim Dorothea Pumped Hydro | |
| Cyfarfod nesaf i'w gynnal tua mis Medi. Anelir i drefnu gweithdy o fewn 6-8 wythnos. | |